Cynllun a wnier o dan Adran 15 o ddeddf Cymwysterau Cymru 2015

Mai 2021

Ail-gyhoeddwyd fersiwn 2 o'r Cynllun a wnaed o dan Adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 wrth i ddiweddariad bach gael ei wneud ym mis Mai 2021. Oherwydd i'r DU adael yr UE roedd angen i ni ddileu'r cyfeiriad at hysbysebu yn OJEU.

Anfonwch unrhyw sylwadau at ***polisi@cymwysteraucymru.org***

CYNNWYS

RHAN A - SAIL STATUDOL AR GYFER Y CYNLLUN
RHAN B – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL
RHAN C – Y WEITHDREFN DDYFARNU

RHAN A - SAIL STATUDOL AR GYFER Y CYNLLUN

Yn unol ag Adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Cymru ("y Ddeddf"), mae'r ddogfen bresennol yn gwneud darpariaethau ar gyfer sut y byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer datblygu cymwysterau blaenoriaeth, cyfyngedig.

15 Pŵer i wneud trefniadau i ddatblygu cymhwyster blaenoriaeth, cyfyngedig

(1) Gall Cymwysterau Cymru ymrwymo i drefniadau gyda chorff dyfarnu, ac effaith y trefniadau hynny yw galluogi'r corff i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaeth, cyfyngedig, gyda'r bwriad o gael darpar gymeradwyaeth ar gyfer y ffurf honno o gymhwyster o dan adran 16.

(2) Gall y trefniadau wneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer y canlynol —

(a) y meini prawf i'w bodloni gan ffurf y cymhwyster hwnnw sydd i'w ddatblygu;

(b) taliadau i'w gwneud gan Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'i ddatblygiad.

(3) Rhaid i Cymwysterau Cymru lunio cynllun sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gwneud trefniadau o dan yr adran hon.

(4) Rhaid i Cymwysterau Cymru arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cynllun.

(5) Rhaid i'r cynllun bennu gweithdrefn agored, deg a thryloyw.

(6) Gall Cymwysterau Cymru ddiwygio'r cynllun.

(7) Rhaid i Cymwysterau Cymru gyhoeddi'r cynllun.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei wneud yn unol ag Adran 15(3) a'i gyhoeddi'n unol ag adran 15(7)

RHAN B – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

Caiff y trefniadau a wneir o dan adran 15(1) eu nodi mewn contract ysgrifenedig rhwng Cymwysterau Cymru a'r corff dyfarnu perthnasol. Ni fydd unrhyw drefniadau'n ddilys oni bai a hyd nes y bydd contract o'r fath wedi'i wneud.

Dyfernir contract o'r fath yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rhan C o'r Cynllun hwn.

Wrth gyflawni'r weithdrefn, bydd Cymwysterau Cymru yn ymddwyn yn deg, yn agored ac yn gymesur, ac yn unol â'i Bolisi Cyfyngu cyhoeddedig.

RHAN C – Y WEITHDREFN DDYFARNU

Mewn rhai achosion, bydd y Rheoliadau Contractau Consesiwn yn gymwys ac ystyrir bod y siart llif hwn yn unol â'r rhain.

Mewn achosion eraill, bydd Cymwysterau Cymru yn cymhwyso'r broses a nodir isod.

FFIGUR 1: PROSES GOMISIYNU AC AMSERLEN DDRAFFT SY'N YMGORFFORI CAMAU DEIALOG.
PAN NAD OES ANGEN DEIALOG, CAIFF BWLEDI 4 I 6 EU CYFUNO AC FELLY GALLAI AMSERLENNI'R CAM HWN FOD 2 I 4 MIS YN FYRRACH O GANLYNIAD I HYNNY (O GYMHARU Â'R 130 DIWRNOD A DDANGOSIR) BYDDY BROSES HON YN DECHRAU YN DILYN GOSOD Y CYMHWYSTER ARY RHESTR CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYHOEDDI'R PENDERFYNIAD I GYFYNGU

Sylw								
Cyn dechrau'r broses gomisiynu ffurfiol, bydd Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â gwaith cynllunio a pharatoi cychwynnol gan gynnwys: ystyried yr achos busnes a'r asesiad effaith rheoleiddiol, nodi risgiau; diffinio amcanion, manyleb a meini prawf dethol a dyfarnu contract. Bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud ymchwil i'r farchnad, yn asesu'r farchnad neu'n cynnal digwyddiadau i esbonio'r prosiect i gynigwyr posibl ac ennyn diddordeb.	Yn dilyn y penderfyniad i gyfyngu, caiff hysbysiad o gontract ei gyhoeddi ar Chwiliwch am Dendr ar borth Gwerthwch i Gymru a gwefan Cymwysterau Cymru (gellir defnyddio gwefannau perthnasol eraill i sicrhau bod mwy o bobl yn gweld y cyfle os bydd angen). Bydd gan bartïon sydd â diddordeb 30 diwrnod o'r dyddiad y caiff yr hysbysiad o gontract ei anfon i wneud cais i gymryd rhan, trwy gyflwyno Holiadur Cyn-Gymhwyso (PQQ) neu holiadur cyfatebol.	Gwerthuso'r ymatebion i'r PQQ / creu rhestr fer o gynigwyr yn erbyn y meini prawf dethol: (i) cydnabyddiaeth berthnasol neu fwriad i gyflawni cydnabyddiaeth, (ii) cryfder ariannol a (iii) gallu technegol a phroffesiynol. Gwahoddir yr holl gynigwyr sy'n bodloni'r meini prawf dethol i gymryd rhan yn y cam nesaf. Caiff y meini prawf dethol eu cynnwys yn yr hysbysiad o gontract ynghyd â'r gofynion sylfaenol.	**Cam 1** Anfon gwahoddiad i gyflwyno atebion amlinellol at bob un o'r cynigwyr ar y rhestr fer. Cynigwyr yn cyflwyno atebion amlinellol. Amcan Cam 1 yw galluogi Cymwysterau Cymru i gael dealltwriaeth well o ystod, natur a chwmpas atebion posibl y cynigwyr i fodloni gofynion Cymwysterau Cymru.	**Cam 2** Bydd diffyg manylion yn atebion amlinellol y cynigwyr. Defnyddir y cylchau deialog i weithio ar feysydd yr atebion lle mae angen datblygu hynny. Cyfarfodydd deialog manwl gyda phob un o'r cynigwyr. Efallai y bydd mwy nag un cylch o ymarferion rhestr fer yn ystod y cam hwn, lle bydd nifer yr atebion a chynigwyr sy'n cael eu cynnwys ar ôl pob cylch yn lleihau yn seiliedig ar y meini prawf dyfarnu.	**Cam 3** Gofynnir i gynigwyr gyflwyno eu hatebion drafft yn eu cyfanrwydd. Cyfle olaf i gynigwyr ymateb i Cymwysterau Cymru gyda phwyntiau y maent eisoes wedi'u codi neu sy'n codi o newidiadau drafftio. **Cam 4** Gwahoddiad i gyflwyno cynigion terfynol. Os mai dim ond un set o gyfarfodydd deialog sydd ei hangen, bydd y terfyn amser yn lleihau'n sylweddol o 90 diwrnod.	Derbyn y cynigion terfynol. Gall Cymwysterau Cymru egluro elfennau o gynigion terfynol cynigwyr ar yr amod nad yw hynny'n golygu gwneud newidiadau i'r nodweddion sylfaenol. Bydd Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â phroses werthuso er mwyn nodi'r cynigydd/cynigwyr a ffefrir.	Bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu'r cynigydd/cynigwyr a ffefrir a'r cynigwyr eraill am ganlyniad y broses gaffael. Gall Cymwysterau Cymru a'r cynigydd/cynigwyr a ffefrir egluro elfennau o'r tendr terfynol ar yr amod na wneir unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnig terfynol.	Bydd y cynigydd/ cynigwyr a ffefrir yn gwneud cytundeb â Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn cadw at gyfnod segur o 10 diwrnod o hyd cyn gwneud cytundeb(au). Bydd Cymwysterau Cymru yn diweddaru QiW ac yn rhoi gwybod i gyrff dyfarnu a chanolfannau am drefniadau trawsnewidiol ac amserlenni.

NODER: Dangosol yn unig yw'r terfynau amser. Mae'r amserlenni ar gyfer pob un o'r cyfnodau yn hyblyg a gall Cymwysterau Cymru eu pennu yn ôl yr angen. Fodd bynnag, er mai ychydig o derfynau amser rhagnodedig sydd, mae'n rhaid i unrhyw derfyn amser a osodir fod yn rhesymol ac yn gymesur mewn perthynas â chwmpas a natur y gystadleuaeth.